Cyfarfod Addysg Uwch Rhanddeiliaid Sector Taith - Crynodeb
Dydd Llun, 9 Hydref 2023
9.00– 10.00am
Cyfarfod a gynhaliwyd ar Teams

Rhestr Bresenoldeb	
Yn Bresennol:	Walter Brooks, Taith (Cadeirydd) Alison Braddock, Prifysgol Abertawe Kathleen Griffiths, PCYDDS Rowena Kidger, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Poppy Hodkinson, Prifysgol Caerdydd Monika Hennemann, Prifysgol Caerdydd Omer Rana, Prifysgol Caerdydd Sarah Cunningham, Prifysgol Bangor Catherine Canning, CCAUC Siobhan Williams, Prifysgol Caerdydd Christie Dear, ESN y DU Jude Waites, ESN y DU Shamima Kuddus-Hussain, Prifysgol Metropolitan Caerdydd Lucy Williams, Prifysgol Abertawe Penny Lauder, Prifysgol Abertawe
Cyfieithydd	
Ymddiheuriadau:	
Aelodau o Gorff Gweithredu Rhaglen Taith (TPE):	Ellie Bevan Siôn James
Cymorth Ysgrifenyddol:	Michele Convery

Cofnodion	
Eitem ar yr agenda	**Eitem**
1	**Croeso a chyflwyniadau**
1.1	Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod ac esboniwyd iddynt, er nad grŵp gwneud penderfyniadau oedd hwn, y byddai'r trafodaethau a'r adborth o'r cyfarfodydd hyn yn llywio unrhyw gynigion a gyflwynir i ILEP Ltd. Bwrdd y Cyfarwyddwyr.
1.2	Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gefnogi cymryd cofnodion a gofynnwyd iddynt ddefnyddio'r llaw rithwir wrth eisiau cyfrannu at drafodaethau.
1.3	Hysbyswyd yr aelodau bod croeso iddynt ofyn cwestiynau yn Gymraeg a byddai aelod o'r tîm yn ateb yn Gymraeg ac yn cyfieithu ar gyfer yr aelodau eraill
2	**Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r camau gweithredu**
2.1	Amherthnasol
3	**Pynciau i'w trafod**
3.1	Cyflwynwyd trosolwg o bapur 'Diweddariadau Taith a Pynciau i'w Trafod', a gafodd ei ddosbarthu cyn y cyfarfod. Rhoddwyd yr adborth canlynol mewn perthynas â'r papur:
3.1a	**Cyfranogwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol:** Yn ogystal, hysbyswyd aelodau bod trafodaethau mewnol cychwynnol, er nad ydynt yn sefydlog, yn awgrymu targed lleiaf o 20%.
3.1a(i)	Dywedwyd, er ei fod yn syniad da, o safbwynt ymchwil, y gall hefyd achosi rhai problemau ac awgrymwyd y dylai fod rhyw fath o ddyraniad caledi.
3.1a(ii)	Dywedwyd ymhellach fod y cysyniad o galedi yn wahanol ar gyfer ymchwil o'i gymharu â gweithgareddau symudedd addysg ac mae ehangu cyfranogiad mewn ymchwil yn bwnc llawer ehangach. Awgrymwyd cynyddu'r gweledded, h.y., annog llysgenhadon ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig i ddangos y posibiliadau.
3.1a(iii)	Amlygwyd bod yna groestoriad rhwng grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.
3.1a(iv)	Dywedwyd, os oes targed canrannol yn mynd i fod, y dylid ystyried y gwahaniaeth rhwng gweithgaredd symudedd ymchwil ac addysg uwch a sut mae grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu dosbarthu.

3.1b	**Newidiadau i gyfraddau grant**
3.1b(i)	Awgrymwyd bod derbynwyr yn cael defnyddio arian sy'n gweithio orau yn eu hamgylchiadau unigol.
3.1b(ii)	Gofynnwyd a gytunid ar gyfraddau/lleoliadau ymlaen llaw. Cadarnhaodd **Taith** na ellir gosod cyfyngiadau o ran i ble y mae'n bosibl bod cyfranogwyr eisiau mynd. Mae'r pwyslais ar ble y gallant ddod o hyd i'r profiad gorau.
3.1c	**Cynaliadwyedd**
3.1c(i)	Amlygwyd nad yw bob amser yn ymarferol ddefnyddio dulliau gwyrdd o deithio ac awgrymwyd y gallai model hybrid fod yn fwy buddiol.
3.1c(ii)	Dywedwyd bod angen mwy o amser wrth ddefnyddio dulliau trafnidiaeth werdd ac mae hyn yn effeithio ar faint y gellir ei hawlio am y daith.
3.1c(iii)	Awgrymwyd nad yw'r opsiwn gwyrdd ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y sector symudedd ymchwil oherwydd
3.1c(iv)	yr amser ychwanegol sydd ei angen ac nid yw'n cynnig cymaint â hynny'n fwy o arian. Gellid cynyddu cyfraddau i'w gwneud yn fwy apelgar.
3.1d	**Gwella eglurder a lleihau baich gweinyddol** • AU (Addysg) ac AU (Ymchwil)
3.1d(i)	Amlygwyd bod ymchwil yn gweithio fesul cam ac efallai na fydd arian ymchwil yn cael ei ddyrannu mewn un rhan o'r flwyddyn ond efallai y byddai mwy o alw mewn rhan arall o'r flwyddyn. Felly, awgrymwyd bod hyblygrwydd o ran sut mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu ac nid ei gyfuno â'r llinyn addysgu.
3.1d(ii)	Gwnaed sylw fod manteision i symleiddio ond pe na bai'r un person yn rheoli'r ddwy ffrwd yna gallai hynny fod yn broblem.
3.1d(iii)	Amlygwyd bod ymchwil ac addysg yn cael eu rheoli'n dra gwahanol a gofynnwyd a ellid darparu eglurder ar sut y byddai'r cais yn cael ei reoli.
3.1d(iv)	Gofynnwyd a oedd y cynnig hwn ar gyfer Addysg Bellach hefyd.
3.1d(v)	Eglurodd **Taith** mai dim ond ar gyfer Addysg Uwch y mae hyn.

3.1d(vi) 3.1d(vii) 3.1d(viii)	Dywedodd **Taith** wrth yr aelodau, os oedd y cynnig yn mynd i fynd yn ei flaen, y byddai ymgynghoriad gyda'r sector ar sut y gallai weithio mor hawdd â phosibl. Dywedwyd y gallai'r cynnig hwn wneud pethau'n fwy cymhleth yn fewnol oherwydd bod y ffordd y mae'r ddau faes yn cael eu rhedeg yn dra gwahanol. • Addysg Bellach ac Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol – iaith Amlygwyd y byddai rheoleiddio yn newid o fis Ebrill 2024.
4	**Diweddariadau**
4.1 4.2	Hysbyswyd yr aelodau am gyfarfodydd bob sector a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Bydd y rhain yn gyfle i ddysgu ar y cyd ac i fynd i'r afael â materion traws-sector ar y cyd. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto, ond bydd e-bost yn cael ei anfon ar ôl i benderfyniad gael ei wneud. Cynghorwyd yr Aelodau fod y recriwtio ar gyfer chwe aelod newydd o'r Bwrdd Cynghori yn dechrau ym mis Hydref a gofynnwyd iddynt rannu hyn drwy eu rhwydweithiau. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd gwybod i'r aelodau na all y darpar ymgeiswyr fod yn derbyn cyllid gan Taith.
5	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**
5.1	Cyfarfod nesaf 4 Rhagfyr 2023